# papur priordy



## TEYRNASA DROS EIN DAEAR OLL,
## MYN GAEL POB GWLAD I DREFN:
## O ADFER DY DDIHALOG LUN
## AR DEULU DYN DRACHEFN.

*R J Derfel*
*Caneuon Ffydd 234*

*Gweler yr erthygl y tu mewn*

**Rhifyn 379**
**PAPUR GORFFENNAF / AWST 2024**

# Gair gan ein Gweinidog

### Glan Rhondda a Chwm Rhondda

***GYDA'R*** Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal ym Mhontypridd, Rhondda Cynon Taf eleni, mae'n gyfle i gofio unwaith eto am bwysigrwydd yr ardal yn hanes a diwylliant Cymru.



Meddyliwn yn gyntaf am ein hanthem genedlaethol - Hen Wlad fy Nhadau - a gyfansoddwyd gan Evan James a'i fab James ym mis Ionawr 1856, a'i henw gwreiddiol oedd Glan Rhondda.

Daeth y gân yn boblogaidd yn sydyn, ac fe'i chyhoeddwyd ar ddechrau'r 1860au wedi iddi gael ei chanu yn Eisteddfod Genedlaethol 1858 yn Llangollen. Sicrhawyd ei statws yn anthem genedlaethol drwy ei chanu mewn cynulliadau gwlatgar yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac efallai'n fwy arwyddocaol, pan ganwyd hi gan y dyrfa yn y gêm rygbi ryngwladol rhwng Cymru a Chrysau Duon Seland Newydd. Dyma oedd y tro cyntaf i anthem gael ei chanu cyn gêm, ac roedd yn gynsail i'r hyn sy'n digwydd ymhobman heddiw.

Ond o Glan Rhondda i Gwm Rhondda.



Emyn-dôn hynod o boblogaidd yw Cwm Rhondda a gyfansoddwyd gan John Hughes ym 1907 yn dilyn cais oddi wrth arweinydd Capel Rhondda, Trehopcyn am emyn newydd i'w ganu mewn gŵyl gerdd a drefnwyd ar gyfer mis Tachwedd y flwyddyn honno.



Daeth yr emyn-dôn yn boblogaidd i'w ganu mewn gemau rygbi a phêl-droed i'r geiriau Saesneg 'Bread of Heaven'. Gorchmynnodd y Parch. Elvet Lewis, Archdderwydd Cymru o 1924 i 1928, iddi gael ei gwahardd o gapeli gan ei bod yn cael ei chanu ar feysydd pêl-droed!

Rhyfedd meddwl bod Glan Rhondda a Cwm Rhondda ill dau i'w clywed yn cael eu canu mewn gêmau rygbi. Tra bo mynd o hyd ar ganu ein hanthem genedlaethol, tawodd nodau Cwm Rhondda

gyda threigl y blynyddoedd.

***OND*** fe fydd digon o ganu yn y Rhondda yn ystod wythnos gyntaf Awst eleni. Boed llwyddiant a bendith ar yr Ŵyl.

## Gweddiwn

Dyro Dduw dy nawdd,
Ac yn nawdd, nerth,
Ac yn nerth, deall,
Ac yn neall, gwybod,
Ac yng ngwybod, gwybod y cyfiawn,
Ac yng ngwybod y cyfiawn, ei garu,
Ac o garu, caru pob hanfod,
Ac ym mhob hanfod, caru Duw,
Duw a phob daioni.

**Amen**

***Gweddi'r Orsedd***

## DARLLENIADUR

| Mis Gorffennaf | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Salm 13 |
| Wythnos 2 | Salm 45: 10-17 |
| Wythnos 3 | Salm 119: 105-112 |
| Wythnos 4 | Salm 139: 1-12, 23-24 |
| **Mis Awst** | **Darlleniad** |
| Wythnos 1 | Salm 105: 1-11 |
| Wythnos 2 | Salm 17: 1-7, 15 |
| Wythnos 3 | Salm 105: 1-6, 16-22, 45b |
| Wythnos 4 | Salm 133 |

**Mis Awst**

**Byddaf yn cymryd gwyliau yn ystod mis Awst yn ôl fy arfer. Os oes argyfwng yn codi yn fy absenoldeb gellir cysylltu â mi yn unig drwy Ysgrifenyddion yr Eglwysi:**

**Y Priordy: Alun Charles(07813 716062)**
**Cana: Marlene Jones(07528 454834)**
**Bancyfelin: Joanne Richards (07412 254929)**
**Heol Awst: Nigel George (07583 114927)**
**Elim: Brian Walters (07717 005764)**

**Gwerthfawrogwn pe na baech yn cysylltu â mi dros fy ffôn symudol yn ystod mis Awst ac eithrio drwy Ysgrifenyddion yr Eglwysi, os gwelwch yn dda.**

**Diolch am eich cydweithrediad**
**Beti-Wyn**

**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**GWYNFOR a JANET DAVIES**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**



**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau, 12 Medi 2024**
**Pen-y-bont**

**Y Gynhadledd am 4**

**Cyfarfod yr Hwyr am 7**
**Ceir anerchiad gan**
**JANE HARRIES**
**Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru**
**Un sydd wedi bod yn ymgyrchydd heddwch a hawliau dynol ar hyd ei hoes.**




**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

# PANED A SGWRS












**OEDFA DEULU SUL Y TADAU**

**16 Mehefin**




**Mae'n siŵr bod teuluoedd yn edrych ymlaen bob blwyddyn at Sul y Tadau! A chyn y partïon a'r anrhegion onid hyfryd yw dechrau'r Sul drwy ddod at ein glydd yn y capel i fynegi'n diolch i Dduw am ei gariad tadol ac am ei ofal dros bob rhiant?**

**Cofiwch, doedd dim cyfle i'n tadau ymlacio a llaesu dwylo o gwbl ar y bore Sul arbennig hwn - gwnaeth ein Gweinidog yn siŵr o hynny!**

**Yn dilyn gweddi agoriadol, intrada, yr emyn *Jubilate, jubilate* (CFf-58), gyda Heather Williams wrth yr organ, y cyhoeddiadau gan Adrian Evans a'r casgliad, gyda chymorth y plant, Cadi, Mared, Alis, Mali, Aneurin a Brynmor, a'r emyn *Iesu yw'r Ior!* (CFf-400), dyma'r tadau'n dechrau ar eu gwaith!**

**A bachu yn y gair Tadau wnaeth ein tadau ni yn eu cyflwyniad, gan feddwl am y llythrennau sydd yn y gair. Tybed beth ydych**

TADAU

**chi'n ei gysylltu gyda'r llythrennau hyn? Wel, yn y Priordy beth bynnag, yr hyn a gafodd sylw oedd Tacsi/Tynerwch, Amynedd / Arwr, Doniol / Difrifol / Diolch, Antur, ac Ufuddhau. Cafwyd sylwadau perthnasol ar y llythrennau hyn – rhai'n llawn hiwmor ac eraill yn fwy difrifol gyda neges berthnasol ynghlwm wrth bob un ohonynt - gan Huw Jones, Meilyr Gruffudd, Huw Morgans, Tim Hayes ac Iwan Griffiths. Wrth gloi, mynegodd Iwan fod gair pwysig arall yn dechrau gydag U, sef Un a hwnnw'n ein hatgoffa mai un Duw sydd gennym sydd yn ein caru fel Tad.**

**Arweiniodd hyn at ddangos ffilm arbennig, Dameg y Mab Afradlon neu'r Tad Cariadus ble mae Iesu'n ein dysgu am gariad tad.**

**Rhydian Evans a Carwyn Edwards gyflwynodd y weddi pan fynegwyd ein diolch am gariad Duw trwy Iesu, am ofal rhieni a hefyd am gysur i bob rhiant sy'n gofidio am eu plant y dyddiau hyn.**



Canwyd yr emyn *Diolch, diolch, Iesu* (CFf-147) cyn i'n Gweinidog gael gair gyda'r plant. A gwnaeth hynny'n hynod o effeithiol. Roedd cwdyn lliwgar ganddi ar gyfer pob plentyn gyda gwahanol bethau ynddo. Roedd y pethau hyn yn eu hatgoffa o rediad stori'r Mab Afradlon wrth i'r plant eu tynnu o'r cwdyn fesul un. Yr olaf ohonynt oedd *Jammie Dodger* gyda chalon yn y canol a hwnnw'n crynhoi prif neges y ddameg, sef cariad Duw – y tad a chariad pob rhiant. Bydd y plant yn sicr o gofio hyn.




Canwyd yr emyn olaf, *Hapus wyf fi* (CFf-402) cyn traddodi'r fendith.

Gadawodd pawb yr oedfa'n hapus a diolchgar – a diolch i'n Gweinidog am y losin a gafodd pob un ohonom. Yn sicr, ein barn ni i gyd oedd bod ein tadau'n llwyr haeddu parti a seibiant weddill y dydd! Y sawl sydd â chlustiau ganddo - gwrandawed!



Mae'n diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran, yn arbennig i'n Gweinidog am ei holl waith paratoi.

**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH**
**NOS SUL, 29 MEDI 2024 am 5**
**Capel Elim, Ffynnon-ddrain SA31 1TY**

**Arweinydd**
**Sioned Page, Blaenycoed**
**Organydd**
**John Evans, Elim**

**Rihyrsals yng Nghapel Elim dan ofal Helen Gibbon**
**Nos Sul, 14 Gorffennaf am 5 a Nos Sul 8 Medi am 5**

**Prif Rihyrsal yng ngofal Sioned Page yng Nghapel Elim**
**Nos Sul, 15 Medi am 5**

***Rhaglenni'r Gymanfa (Sol-ffa neu Hen Nodiant) ar gael gan Huw Michael - £2 yr un***

# SUL Y TADAU

**Y tadau, gyda'u plant, a gymerodd ran yn yr oedfa**



**Papur Priordy'n sgwrsio â**

**JAYNE WOODS**



**PP: Rych chi'n dal swydd yn ogystal â bod yn fam, Jayne. Allwch chi ddisgrifio'ch gwaith i ni?**

**JW:** *Fe wnes gymhwyso fel cyfrifydd siartredig (gormod o flynyddoedd yn ôl i gofio erbyn hyn!). Gweithiais yn Llundain yn gyntaf lle ces y cyfle i archwilio nifer o sefydliadau diddorol fel y clwb tenis yn Wimbledon cyn treulio cwpl o flynyddoedd ym myd Harry Potter tra'n gweithio i asiant JK Rowling. Ces y cyfle hefyd i weithio yn yr Almaen a Brwsel cyn symud nôl gartref a braf oedd cael gweithio trwy'r Gymraeg am y tro cyntaf tra'n gweithio i Gomisiynydd yr Heddlu a nawr ar bwyllgor Comisiynydd y Gymraeg. Yn ogystal â gwaith bob dydd, mae yna wastad ofyn am drysoryddion gwirfoddol yn lleol! Rwy wedi helpu nifer o elusennau dros y blynyddoedd.*

**PP: Ar ben hynny rydych chi hefyd yn aelod o sawl Bwrdd ym myd addysg?**

**JW**: *Ydw a dw i'n mwynhau'r profiad yn fawr iawn. Yn fy marn i mae*



*addysg yn hollbwysig ac yn gonglfaen cymunedau llewyrchus ac felly mae gennyf ddiddordeb mawr yn y sector yma. Dw i'n treulio cryn dipyn o amser mewn pwyllgorau yn trafod cyfrifon a risgiau – nid dyma fyddai dewis gyrfa llawer o bobl dw i'n siwr! Ond dw i'n mwynhau defnyddio fy sgiliau i helpu sefydliadau gwahanol, yn mwynhau gweithio yn fwy strategol ac yn mwynhau'r amrywiaeth gwaith sy'n deillio o weinyddu ar sawl bwrdd. Rwyf wedi gweinyddu ar fwrdd Coleg Sir Gâr ac ar un o bwyllgorau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn y gorffennol. Erbyn heddiw dw i ar fwrdd Cymwysterau Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio cymwysterau (megis TGAU a lefel A yn ogystal â chymwysterau galwedigaethol) yng Nghymru. Hefyd, dw i ar fwrdd Medr sef corff hyd-braich newydd a fydd yn gyfrifol am gyllido a goruchwylio addysg ac ymchwil ôl-16 yng Nghymru o fis Awst 2024.*

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

**PP: Fe gwrddoch chi â Mike, eich gŵr, ym Mhrifysgol Caerfaddon, Beth am ei waith yntau?**

**JW:** *Do, fe wnaethon ni gwrdd yn y Brifysgol - finnau yn astudio mathemateg a chyfrifiadura ac yntau yn astudio peirianneg fecanyddol. Ar ôl graddio fe ddarlithiodd Mike yn y brifysgol cyn ennill ei ddoethuriaeth yno. Erbyn heddi mae'n gweithio ym maes rheoleiddio economaidd ac yn cynghori sefydliadau gydag isadeiledd sylweddol fel yr Adran Drafnidiaeth a Chwmnïoedd Dŵr. Mae e hefyd yn gwasanaethu ar fwrdd ymddiriedolwyr y Gerddi Botaneg.*

**PP: I ba raddau mae dulliau gweithio'r ddau ohonoch wedi newid ers y pandemig, tybed?**

**JW:** *Mae'r ddau ohonom yn gweithio o gartref yn bennaf ers y pandemig. Felly rhaid bod yn hapus i dreulio'r dydd yn agos iawn i'n gilydd! Mae'n fuddiol i ni fel teulu gan nad oes angen i Mike deithio i Lundain ac ymhellach bob wythnos. Mae'n cynghori prosiect Trafnidiaeth Cymru, Llinellau Craidd y Cymoedd, ar hyn o bryd, felly pan fydd rhaid iddo fynd i'r swyddfa, dim ond trip i Bontypridd yw e.*

**PP: Rydych chi'n un o blant y Priordy, Jayne, yn ddiacon ac wedi treulio rhai blynyddoedd hefyd yn gofalu am yr Ysgol Sul. Mae'n amlwg fod y capel yn bwysig i chi?**

**JW:** *Ydi. Nes i fynychu'r Ysgol Sul yn rheolaidd yn blentyn ac mae gennyf atgofion melys iawn o'r profiad. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r athrawon Ysgol Sul a gafodd gymaint o ddylanwad arnaf i, yn bennaf Eirlys Rees, Rael Harries ac Elinor Davies. Mae bod yn rhan o Gapel yn cynnig cymuned gefnogol ac yn cyfoethogi'n bywydau. Yn ogystal â dysgu am y Beibl ac am grefydd, fe wnes i fwynhau'r cyfle i gymryd rhan mewn gwasanaethau, cynrychioli'r Priordy mewn ambell gystadleuaeth a chwarae'r organ yn y Capel.*

**PP: Pynciau gwyddonol aeth â'ch bryd yn y brifysgol ond mae cerddoriaeth wedi chwarae rhan bwysig yn eich bywyd o ddyddiau cynnar.**



**JW:** Do, dechreuais ddysgu'r ffidil yn yr ysgol yn bum mlwydd oed a mynd ati wedyn i ganu'r piano. Dw i wedi mynd ymlaen ers hynny i geisio chwarae nifer o offerynnau (er mi hoffwn chwarae pob un ohonynt yn well ond does dim digon o oriau yn y dydd…!). Mae'n bosibl bod y diddordeb cynnar mewn cerddoriaeth wedi deillio o dreulio

fy Sadyrnau yn yr eisteddfodau lleol. Rwyf wrth fy modd yn gwrando ar gerddoriaeth gorawl yn arbennig. Dw i hefyd braidd yn ffan o sioeau cerdd ac yn ffodus o fod yn gallu cyfuno diddordeb mewn theatrau gyda fy ngwaith ar un o bwyllgorau Cyngor Celfyddydau Cymru. Dw i'n wir ddiolchgar am y cyfleoedd a gefais fel plentyn i feithrin diddordeb mewn cerddoriaeth ac yn gobeithio y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn cael yr un cyfleoedd cerddorol.

**PP: Rydych chi'n aelod o Fand y Priordy ond hefyd o grwpiau cerddorol eraill.**
**JW**: *Ydw. Rwy'n cael hwyl yn chwarae yn ein band ni yn y Priordy. Dw i hefyd yn aelod o fand y dref sef Band Chwyth Symffonig*



*Caerfyrddin. Syniad Peter Hughes Griffiths oedd y band ac fe ddechreuodd nôl yn 1996 gyda fy mrawd, Mark, yn un o'r aelodau cyntaf (roeddwn innau yn byw yn Llundain ar y pryd). Rydyn yn chwarae yn gyhoeddus yn aml yn ystod y flwyddyn - yn y Gerddi Botaneg yn fisol ac ar gyfer yr orymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn flynyddol. Bob yn ail flwyddyn rydyn ni'n teithio i Iwerddon ar gyfer yr Ŵyl Ban Geltaidd ac yn cael hwyl a sbort yno. Rwyf hefyd yn mwynhau chwarae alawon gwerin Cymru gyda'r sesiwn werin ac, yn rhywbeth newydd i mi, dw i'n chwarae piano arddull jazz gyda band mawr Treforys.*

**PP: Beth am y plant, Ethan a Iestyn? Ydyn nhw'n offerynwyr hefyd?**
**JW**: *Ydyn, mae'r ddau yn canu'r piano ac Ethan yn chwarae'r ffidl a Iestyn y trwmped. Ond y peth pwysicaf oll yw ei bod yn mwynhau chwarae.*



**PP: Yn un o gyrddau PIP (Pobl Ifainc y Priordy) ar ddechrau Wythnos Cymorth Cristnogol cawsom beth syndod o ddeall eich bod wedi bod yn y wlad a oedd yn destun sylw gennym, sef Burundi yng nghanol Affrica. Rydych chi'n teithio tipyn felly!!**
**JW**: *Ydw, dw i'n ddigon ffodus i fod wedi teithio tipyn dros y byd i gyd (cyn cael plant!) ac wedi teithio trwy ddwsin o wledydd ar drip i Affrica. Er i minnau fwynhau gwylio'r gorilaod yn Rwanda a hedfan mewn awyren fechan dros raeadrau Fictoria, anodd oedd peidio â chael fy effeithio gan y tlodi ac eisiau helpu. Ym Malawi, ymwelais â theulu ble'r oedd y ferch fach yn dioddef o falaria. Doedd ganddynt mo'r arian*

*i dalu am y driniaeth i'w gwella (£3 o gost). Rwyf wedi gweld olion gwaith Cymorth Cristnogol mewn amryw fan: yng Ngorllewin Papua – ysgol wedi ei hadeiladu ar gyfer plant mewn ardal wledig (gwaith tri diwrnod o gerdded i gyrraedd y pentref gan nad oes heol i fynd yno) ac yn Borneo, fe'm croesawyd gan drigolion pentref yng nghanol y jyngl*



*gyda chanu brwdfrydig Cristnogol yn Saesneg! Erbyn heddiw, ryn ni'n fwy ymwybodol o'n hôl troed carbon ac felly bydd eisiau ystyried yn hirach cyn neidio ar awyren i ben draw'r byd! Eleni, mi fyddwn yn treulio'r haf yma yng Nghymru – mae yna gymaint o brydferthwch i'w weld ar stepen y drws hefyd.*

**PP: I gloi Jayne, tybed beth wnewch chi fel teulu i ymlacio a chadw'n heini ar ddiwedd wythnos brysur?**

**JW:***Rydyn i gyd yn gwneud ychydig o redeg nawr ac yn y man i gadw'n heini ac mae'r bechgyn yn mwynhau chwarae pêl-droed (ond nid pêl-droediwr mohono i o gwbl!). Ers y cyfnod clo mae'r teulu i gyd yn gwneud karate hefyd gydag Ethan yn mynd am ei wregys du ar ddechrau Gorffennaf. Bydd eisiau ychydig mwy o amser ar y gweddill ohonom i gyrraedd y garreg filltir yna!*



***Diolch yn fawr iawn i chi Jayne am ateb y cwestiynau a phob dymuniad da i chi a'r teulu i'r dyfodol***



## CORNEL
## CODI GWÊN!

Roedd yr athrawes Ysgol Sul yn adrodd stori gwraig Lot i'r plant. Disgrifiodd y modd y bu i wraig Lot edrych yn ôl ar Sodom a throi mewn i golofn o halen.

Torrodd bachgen bach ar draws yr athrawes a dweud 'Fe edrychodd mam nôl unwaith pan oedd hi'n gyrru'r car, ac fe drodd mewn i'r golofn sy'n dal y giât!

**Peter Hughes Griffiths yn holi…..**



## Sawl emyn-dôn allwch chi ei chanu?

***YDYCH*** chi erioed wedi meddwl sawl emyn-dôn rych chi'n ei gwybod neu'n medru ei chanu heb unrhyw fath o gopi cerddorol o'ch blaen, ac yn gallu canu geiriau'r emyn yn gyfforddus i gyfeiliant organ neu biano?



Ydyn ni'n sôn am ddwsin, ugeiniau neu o bosib hyd at gant neu fwy?

Mae'n werth i bob un ohonon ni ystyried hyn o gofio ein bod yn canu emynau ers pan oeddem yn blant a hynny yn gyson mewn gwasanaethau ar y Sul ac mewn cymanfaoedd, a hyd yn oed wrth edrych a gwrando ar 'Dechrau Canu' a 'Songs of Praise' ar y teledu neu 'Caniadaeth y Cysegr' ar y radio.

Rwy'n cofio cyflwyno sesiwn ar 'Emynau Cymru' i deithwyr Americanaidd bob haf yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, a dangos ar fideo iddyn nhw'r Cymry'n canu'r holl donau ar eu cof. Roedd hyn yn rhyfeddod llwyr i'r Americanwyr, a dyna pryd y gwnes i sylweddoli cymaint o emyn-donau sydd ar ein cof, a faint ohonyn nhw ryn ni yn medru eu canu.

Er bod Shan Cothi yn gosod cystadleuaeth enwi'r emyn-dôn ar ei rhaglen radio foreol, yn ddieithriad bron fe fydd y rhan fwyaf ohonon ni'n medru canu'r emyn ond yn methu cofio enw'r dôn, ac mae enwau mor hyfryd i'r tonau hyn.

Bob bore Sul yn y Priordy ryn ni'n canu o leiaf pedwar emyn ar wahanol donau. Er bod ambell un yn cael ei hailadrodd o bryd i'w gilydd, os ydym yn bresennol am 25 Sul yn unig mewn blwyddyn, dyna bron gant o emyn-donau gwahanol yn cael eu canu. Yna, fe fyddwn yn mynychu gwasanaethau amrywiol eraill o bryd i'w gilydd neu fynd i gyngherddau i wrando ar unigolion neu gorau yn canu emynau – a ninnau'n gwybod yr emyn-dôn yn dda. Oes, mae yna gasgliad mawr o emyn-donau gyda ni ar ein cof.



Mae rhai wrth gwrs yn fwy cyfarwydd na'i gilydd, a'n tuedd bob amser yw cysylltu llinell gyntaf yr emyn gydag emyn-dôn arbennig.

Dyma rai enghreifftiau i chi, ac rwy'n siŵr y byddwch yn medru canu'r emyn-dôn briodol yn syth:

1) **'Nid wy'n gofyn bywyd moethus'**
2) **'I bob un sy'n ffyddlon...'**
3) **'Glan geriwbiaid a seraffiaid...'**
4) **'Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb...'**
5) **'Rho i'm yr hedd na wyr y byd amdano...'**
6) **'Dros Gymru'n gwlad...'**
7) **'O Iesu mawr rho d'anian bur...'**
8) **'O fy Iesu bendigedig...'**
9) **'Iesu, Iesu, rwyt ti'n ddigon...'**
10) **'Mi glywaf dyner lais...'**




Faint sgorioch chi allan o 10?        Da iawn chi.

A beth am garolau'r Nadolig? Mae nifer dda o rheini hefyd fel:



1) **'Dawel nos, sanctaidd yw'r nos...'**
2) **'O deued pob Cristion i Fethlem yr awrhon...'**
3) **'Wele cawsom y Meseiah...'**
4) **'Awn i Fethlem bawb dan ganu...'**
5) **'Wele gwawriodd dydd i'w gofio...'**

a llawer mwy.



***HEB*** yn wybod i chi felly, rwy'n falch i ddweud bod eich casgliad o emyn-donau yn un helaeth ac yn rhywbeth y gallwch ymfalchïo ynddo.   Da iawn chi!

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
**Trowch at:  cyfundeb.com**

## Priodas Eleri Williams a James Singleton yn y Priordy

**Dydd Sadwrn 22 Mehefin 2024**





# CWIS Y GWYRTHIAU

**Tybed pa mor gyfarwydd ydych chi â'r gwyrthiau yn fersiwn beibl.net?!!!!**

**Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!**



**Deg dyn yn cael eu hiacháu o'r gwahanglwyf**
**Luc 17,11-19**

Aeth Iesu ymlaen ar ei ffordd i Jerwsalem, a daeth at y ffin rhwng Galilea a Samaria. Wrth iddo fynd i mewn i ryw bentref, dyma --- dyn oedd yn dioddef o'r ---------- yn dod i'w gyfarfod. Dyma nhw'n sefyll draw ac yn gweiddi'n uchel arno o bell, "Feistr! ----! – wnei di'n helpu ni?" Pan welodd Iesu nhw, dwedodd wrthyn ---, "Ewch i ddangos eich hunain i'r offeiriaid." Ac roedden nhw ar eu ffordd i wneud hynny pan wnaeth y gwahanglwyf oedd ar eu ---- ddiflannu! Dyma un ohonyn nhw'n troi'n ôl pan welodd ei fod wedi cael ei -----. Roedd yn gweiddi'n uchel, "Clod i Dduw!" Taflodd ei hun ar lawr o flaen Iesu, a diolch iddo am yr hyn roedd wedi'i wneud. (Gyda llaw, Samariad oedd y dyn.) Meddai Iesu, "Rôn i'n meddwl mod i wedi iacháu deg o ddynion. Ble mae'r --- arall? Ai dim ond y -------- yma sy'n fodlon rhoi'r clod i Dduw?" Yna dwedodd wrth y dyn, "--- ar dy draed, a dos adre. Am i ti ----- rwyt wedi dy iacháu."

.

**Atebion ar dudalen 29**

**A WYDDOCH CHI?**

## FAINT O EGLWYSI, AELODAU, PLANT A PHOBL IFAINC SY GENNYM? CRYNODEB O YSTADEGAU'R EGLWYSI FESUL CYFUNDEB YN 2023

| RHIF | CYFUNDEB | EGLWYSI | AELODAU | PLANT A PHOBL IFAINC |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Llŷn ac Eifionydd | 20 | 527 | 58 |
| 2 | Gogledd Arfon | 21 | 915 | 140 |
| 3 | Dwyrain Dinbych a Fflint | 5 | 87 | 0 |
| 4 | Gorllewin Dinbych a Fflint | 7 | 151 | 38 |
| 5 | Maldwyn | 17 | 389 | 20 |
| 6 | Meirion | 21 | 813 | 129 |
| 7 | Môn | 18 | 449 | 62 |
| 8 | Ceredigion | 47 | 2508 | 119 |
| 9 | Gorllewin Caerfyrddin | 34 | 2124 | 285 |
| 10 | Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog | 42 | 2529 | 207 |
| 11 | Gogledd Morgannwg | 9 | 80 | 0 |
| 12 | Dwyrain Morgannwg | 19 | 1190 | 263 |
| 13 | Gorllewin Morgannwg | 38 | 1507 | 58 |
| 14 | Penfro | 26 | 974 | 36 |
| 15 | Llundain | | 124 | 3 |
| | | | | |
| 2023 | CYFANSWM | 324 | 14,367 | 1,418 |
| | *cymharer* | | | |
| 2022 | CYFANSWM | 341 | 14,982 | 1,605 |
| 2021 | CYFANSWM | 346 | 16,307 | 1,778 |

***Ffynhonnell***
***Undeb yr Annibynwyr Cymraeg***
***Tanysgrifiadau a Chyfrifon 2023 - Tŷ John Penri, Abertawe***

***Gweler Papur Priordy Rhifyn Medi 2023 am yr ystadegau llawn ar gyfer 2022 a Papur Priordy Rhifyn Medi 2022 am yr ystadegau llawn ar gyfer 2021***

**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR**
**Y PRIORDY**

**Nos Lun 16 Medi 2024 am 7.30 yn y Festri**

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda**

***Trefnir cyswllt zoom i'r sawl sy'n methu â bod yn bresennol***

**DIWRNOD HEDDWCH RHYNGWLADOL**

**Dydd Sadwrn 21 MEDI 2024**

**Cofiwch wylio am drefniadau Cymdeithas y Cymod a Chyngor Tref Caerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin i godi'r Faner Heddwch Ryngwladol**



## PANED A SGWRS



**Bore Mercher, 27 Medi 2023 – 10.30**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr – Croeso i bawb**



**MUNUD I FEDDWL**

**Bydd ein Gweinidog yn cyflwyno *Munud i Feddwl* (yn ystod rhaglen *Bore Cothi* ar *Radio Cymru* bob bore Mercher yn ystod mis Gorffennaf**

**CYFARFODYDD YR UNDEB**

**Eleni cynhelir Cyfarfodydd yr Undeb ar gampws Prifysgol De Cymru, Trefforest.**

**Dydd Iau 11 Gorffennaf – Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf 2024**

**Mae croeso cynnes i bawb.**

**Gweler y rhaglen lawn ar Wefan yr Undeb**

# AR WAITH YN YR YSGOL SUL











# Ifanc@Priordy



**Mabolgampau MIC**
Wel, fe gawsom hwyl yn Neuadd Bronwydd! Diolch i bawb a ddaeth ac i Lowri ac Angharad am ofalu am dîm Y Priordy. Da gweld y mabolgampau wedi ail-ddechrau.

**Gŵyl Canol Dref**
Dydd Sadwrn, 6 Gorffennaf. Cofiwch alw draw i weld ein stondin. Cystadlaethau, sticeri a chardiau Nadolig Cymorth Cristnogol ar werth.

Mae bron yn fis Awst! Helpwch fi i ddod o hyd i fy nghamper fan er mwyn i mi gael mynd i'r 'Steddfod!



# Chwilotair llythyren 'R' a 'Rh'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | R | H | T | A | R | H | R | E | U | M | M | H | A |
| O | R | O | U | U | R | R | A | M | A | H | A | H | H |
| B | F | R | U | R | A | H | L | H | L | R | H | R | R |
| U | A | B | E | H | H | U | R | U | O | E | A | I | H |
| E | H | R | A | Y | A | F | E | R | E | B | R | H | A |
| B | A | E | D | F | B | E | N | A | H | A | B | T | N |
| R | R | E | M | E | R | I | E | R | R | C | R | U | E |
| E | A | L | T | L | R | N | I | M | L | C | H | R | B |
| H | N | I | B | E | D | I | B | M | B | O | E | E | U |
| O | C | H | B | E | R | A | N | R | I | R | B | H | R |
| B | Y | E | A | A | R | I | E | L | A | B | I | H | O |
| O | C | N | A | B | E | D | B | I | L | R | B | Y | L |
| A | R | H | O | C | A | H | B | R | I | E | A | A | R |
| M | R | A | C | H | A | E | L | L | A | A | T | A | R |

RUTH
RAMA
RABBI
RHUFEINIAID
RACHAEL
RHYFEL
RAHAM
RUBEN
REBECA
REHOBOAM
RAHAB
RHEOLAU

**Sadwrn 5 Gorffennaf**
Gŵyl Canol Dref. Cofiwch alw draw i stondin ein Gofalaeth!

**Diwedd tymor**
Daeth diwedd tymor yr Ysgol Sul! Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich ffyddlondeb yn yr Ysgol Sul dros y flwyddyn, ac i'r rhieni am bob cymorth a chefnogaeth. Byddwn yn cwrdd nesaf ar gyfer oedfa deulu ar yr ail Sul ym mis Medi.

Joiwch yr haf
Tan tro nesaf,
Hwyl Fawr
***Beti Wyn***



# YR YSGOL SUL YN MWYNHAU YN Y PARC









## R J DERFEL

## 1824-1905

***CAFODD*** Robert Jones (ei enw gwreiddiol) ei eni 24 Gorffennaf 1824, sef deucan mlynedd yn ôl i'r mis hwn, yn Y Foty, Llandderfel, Meirionnydd. Wedi treulio cyfnod yn chwilio am waith a chrwydro tipyn, ymgartrefodd ym Manceinion. Dyma pryd y mabwysiadodd y cyfenw 'Derfel'.

Cafodd swydd fel trafaeliwr masnachol ym Manceinion a Gogledd Cymru. Roedd yn bregethwr gyda'r Bedyddwyr ond mae'n debyg iddo golli'i ffydd i raddau helaeth tua 1865, gan ddod dan ddylanwad gwleidyddol Robert Owen o'r Drenewydd a'i syniadau cydweithredol a chymdeithasol ac yn ddiweddarach feddylwyr sosialaidd a seciwlar.

Roedd yn fardd ac ysgrifennodd a chyhoeddodd lawer. Yn Gymro gwlatgarol, roedd yr iaith Gymraeg yn bwysig iawn iddo. Roedd yn un o'r rhai cynharaf i ysgrifennu am sosialaeth drwy'r Gymraeg. Fe hefyd fathodd y term 'Brad y Llyfrau Gleision' am yr Adroddiad ar gyflwr addysg yng Nghymru a gomisiynwyd gan senedd San Steffan ac a gyhoeddwyd yn 1847. Agorodd siop lyfrau ym Manceinion (gyda gwasg ynghlwm wrthi) wedi iddo orffen fel trafaeliwr, gan ddarparu'n arbennig ar gyfer y Cymry ond, yn anffodus, ni fu'r fasnach lyfrau'n llwyddiant.

Mae cyfrol R J Derfel Traethodau ac Areithiau (1864) yn dangos ei sêl wladgarol. Yn y gyfrol hon, er enghraifft, mae'n galw am 'argraffwasg i gyhoeddi llyfrau Cymraeg', dau goleg, un yn y gogledd a'r llall yn y de ble byddai pynciau'n cael eu dysgu trwy'r Gymraeg, llyfrgell ym mhob pentref yng Nghymru, amgueddfa genedlaethol fyddai hefyd yn gweithredu fel llyfrgell genedlaethol, ac 'arsyllfa seryddol ar fryniau Meirionnydd. Roedd yn frwd iawn yn ogystal dros achosion blaengar fel addysg i ferched. Gŵr o flaen ei amser yn sicr!

Daw **Andrew Green**, cyn Lyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol, i'r casgliad mewn erthygl amdano yn 2022 nad yw 'wedi derbyn digon o glod am ei ymrwymiad i Gymru ac i'r iaith Gymraeg, neu am ei ddyfeisgarwch cymdeithasol, yn arbennig fel ysgogydd o sefydliadau cenedlaethol fel llyfrgelloedd'. Mae'n ychwanegu ei bod yn 'drueni nad oes bywgraffiad modern ohono' gan ei fod yn haeddu cael ei gofio.



Bu farw 17 Rhagfyr 1905 ym Manceinion ble treuliodd weddill ei oes ar ôl symud yno.

***MAE*** gan R J Derfel dri emyn yn Caneuon Ffydd (206, 234, 809) a dyfynnwn bennill o un ohonynt (234) ar y tudalen blaen. Mae'n siŵr bod y pennill hwn, fel gweddill yr emyn yn wir, yn adlewyrchu dyhead pob un ohonom y dyddiau hyn. 'Fel dyddiau'r nefoedd ar y ddaear' oedd teitl yr emyn yn y Caniedydd Cynulleidfaol ble cafodd ei gyhoeddi am y tro cyntaf.



| | |
|---|---|
| Llefara, Iôr, nes clywo pawb<br>dy awdurdodol lais,<br>a dyro iddynt ras i wneud<br>yn ôl dy ddwyfol gais. | Goresgyn, â galluoedd glân<br>dy deyrnas fawr dy hun,<br>bob gallu a dylanwad drwg<br>sydd yn anrheithio dyn. |
| | |
| Teyrnasa dros ein daear oll,<br>myn gael pob gwlad i drefn:<br>O adfer dy ddihalog lun<br>ar deulu dyn drachefn. | Gwna'n daear oll fel Eden gynt,<br>yn nefoedd fach i ni,<br>a bydded, tra bo'n ddaear mwy,<br>yn sanctaidd deml i ti. |

**AR Y WE: www. priordy.org** ***(yn cynnwys Papur Priordy)***

**MABOLGAPAU MENTER IEUENCTID CRISTNOGOL SIR GÂR (MIC) YM MRONWYDD**

**Y Plant wrth eu bodd!**



Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin

# SUL SBESIAL 2024

## Yr Egin S4C Caerfyrddin

## 14 Gorffennaf 2.00-3.15






## Siaradwr Gwadd: DAFYDD LLYWELYN

Comisiynydd Heddlu Dyfed-Powys

Llywyddu: **Parchg Guto Prys Ap Gwynfor**

Sesiwn y plant: **Ann Evans**

Dechrau'r cwrdd: **Ysgol Sul Bryn Iwan**

Cyfeilio: **Band Y Priordy**

Mynediad am ddim. Caffi ar agor.

**Croeso cynnes iawn i bawb!**

**Noddir Sul Sbesial 2024 gan**
**DDYDD GWEDDI'R BYD**

# GWASANAETH DINESIG











## GWASANAETH DINESIG

**Braint oedd cael cynnal Gwasanaeth Dinesig Cyngor Tref Caerfyrddin yn y Priordy ym mhresenoldeb Y Maer, Y Cynghorydd Emlyn Schiavone, un o'n diaconiaid, a chyfeillion eraill. Roedd y gwasanaeth yng ngofal ein Gweindog, Caplan y Maer. Cafwyd darlleniad gan y Maer a gweddïau gan aelodau'r Capel, Jayne Woods ac Elis Jones, ynghyd â gair gyda'r plant cyn iddynt fynd i'r Ysgol Sul a neges briodol i'r achlysur gan ein Gweinidog. Gwnaethpwyd casgliad at Apêl 'Ffynhonnau Byw' Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i hyrwyddo gwaith Cymorth Cristnogol yn Colombia.**

## CROESAWU CYFEILLION O OHIO!



**Hyfrydwch hefyd oedd croesawu criw o Brifysgol Rio Grande yn Ohio i'r gwasadanaeth. Mae'r Brifysgol yn gartref i Ganolfan Madog ar gyfer Astudiaethau Cymreig- yr unig ganolfan o'i fath yng Ngogledd America, felly dyna pam mae'r criw yma. Myfyrwyr addysg ydynt, yn dysgu am y system addysg yng Nghymru, felly'n ymweld ag ysgolion ac yn cael sgyrsiau a chyflwyniadau gan staff Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i ddysgu mwy am yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng Cymru ac Ohio.**




***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***
***Y PRIORDY***
***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

**CWIS Y GWYRTHIAU**
**beibl.net**
**ATEBION**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | ddeg | 6 | iacháu |
| 2 | gwahanglwyf | 7 | naw |
| 3 | Iesu | 8 | Samariad |
| 4 | nhw | 9 | Cod |
| 5 | cyrff | 10 | gredu |

| Eisteddfod Genedlaethol Cymru Rhondda Cynon Taf – 2024<br>Rhai Digwyddiadau |
|---|
| Dydd Sul – 4 Awst 2024 – 12.30<br>Y Babell Lên<br>Cofio Gareth Miles |
| Dydd Llun – 5 Awst 2024 - 12<br>Cymdeithasau<br>Cofion Ann Clwyd – Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| Dydd Mercher – 7 Awst 2024 – 10.30<br>Cymdeithasau<br>Caniadaeth y Cysegr yn 75 oed – Cymdeithas Emynau Cymru |
| Dydd Iau – 8 Awst 2024 – 12.00<br>Cymdeithasau<br>Lawnsio Adroddiad Terfynol Comisiwn Cymunedau Cymraeg – Llywodraeth Cymru |
| Dydd Gwener – 9 Awst 2024 – 10.30<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br>Ai AIsteddfod yw dyfodol yr eisteddfod? |

**DIOLCH YN FAWR**



Diolch i Beti-Wyn ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn

**Papur Priordy'n cofio…..**

**CENADWRI GEORGE FOX**

**Sylfaenydd y Crynwyr**



***CREFYDD*** a ddatblygodd ym Mhrydain yng nghanol yr ail ganrif ar bymtheg yw Crynwriaeth, yn benodol yn sgil Rhyfel Cartref Lloegr. Mae newid cymdeithasol yn nodweddu'r cyfnod ac roedd gan lawer o bobl ddiddordeb mewn ail-lunio crefydd, gwleidyddiaeth a chymdeithas.

Sylfaenydd Crynwriaeth `oedd George Fox (Gorffennaf 1624 - Ionawr 1691), gŵr a aned bedwar can mlynedd yn ôl i'r mis hwn yn Fenny Drayton, Swydd Caerlŷr yn Lloegr. Fe'i magwyd yn Biwritan ond yn ddyn ifanc cafodd weledigaeth o'r 'goleuni mewnol' a dechreuodd ymosod yn eiriol ar yr eglwys sefydledig a ffurfioldeb o bob math mewn crefydd. Dechreuodd bregethu yn 1647. Fedrai Fox ddim dioddef offeiriaid o unrhyw fath, na milwyr a milwriaeth!

Yng Nghymru, Siôn ap Siôn (1625? -1697), un o Ben-y-cefn ym mhlwyf Rhiwabon. oedd y Crynwr cyntaf. Ymunodd â'r Piwritaniaid a dod yn aelod o gynulleidfa Morgan Llwyd yn Wrecsam. Yn 1653, ar gais Morgan Llwyd, aeth yntau a chyfaill arall i gwrdd â Fox yn Swathmore, prif ganolfan cenhadon y Crynwyr yn Swydd Gaerhirfryn. Mae'n debyg mai yma y cafodd ei argyhoeddi o'r Gwirionedd. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno sefydlodd Gwrdd y Crynwyr ym Mhen-y-cefn. Bu'n hynod o ddiwyd ac oherwydd llwyddiant ei waith cenhadol, cyfeirir ato'n aml fel Apostol Cyntaf y Crynwyr yng Nghymru.

Yn Ne Cymru, Crynwyr o Loegr ddaeth â'r ddysgeidiaeth yno. Digwyddodd hyn flwyddyn yn ddiweddarach, yn 1654. Bu rhai dilynwyr ac aelodau o deulu'r Piwritan a'r Annibynwr William Erbery (1604-1654), a aned yn Roath-Dogfield yng Nghaerdydd, ymysg y rhai a fu'n weithgar yn taenu dysgeidiaeth y Crynwyr hyd ardaloedd y De.

Doedd y Crynwyr cynnar ddim yn gweld yr angen am adeiladau, defodau, na dyddiau sanctaidd penodol i ymarfer eu crefydd. Roedd eu ffydd wedi'i seilio ar y cynsail y gall bawb gyfathrebu â

Duw, heb yr angen am eglwysi, swyddogion eglwysig na gwasanaethau yn cynnwys sacramentau. Dylai crefydd fod yn rhywbeth y mae pobl yn ei fyw a'i weithredu drwy'r amser yn eu bywydau bob dydd.

Roedd sylwadau fel hyn yn safbwynt chwyldroadol yn y 17eg ganrif oherwydd yr adeg honno roedd yr Eglwys yn agos iawn at y frenhiniaeth a gwleidyddiaeth. Roedd yr eglwys sefydledig, yr Eglwys Anglicanaidd, yn barnu bod safbwynt Fox yn ymosodiad ar strwythur cymdeithas ei hun, a chafodd nifer o Grynwyr eu herlid a'u carcharu oherwydd eu cred.



Penderfynodd llawer o'r Crynwyr chwilio am ryddid crefyddol yn nhrefedigaeth newydd William Penn yn Pennsylvania, America. Roedd 40 o Gymry ar y fordaith gyntaf yn 1682. Y bwriad oedd sefydlu trefedigaeth Gymreig annibynnol yn Pennsylvania, ond chafodd y freuddwyd honno mo'i gwireddu.

Bu'r ymfudo yn gryn ergyd i achos y Crynwyr yng Nghymru. Meddai Geraint H Jenkins: 'Collwyd hufen y Gymdeithas yng Nghanolbarth Cymru a thlodwyd y wlad yn ddifrifol ar eu hôl. Erbyn dechrau'r ddeunawfed ganrif, ychydig ffyddloniaid yn unig a oedd yn weddill.'



Eto i gyd, parhaodd eu dylanwad. Yn yr ugeinfed ganrif, er enghraifft, bu gan y Crynwyr ran amlwg yn y mudiadau heddwch yng Nghymru. Troes un o'n beirdd mwyaf, Waldo Williams, yn Grynwr a gwrthwynebodd dalu rhan o'i drethi mewn protest yn erbyn arfogi. Byddai'n ymuno â'r Crynwyr yn Aberdaugleddau ac yn derbyn nerth a llonyddwch yno. A threuliodd George M. Ll. Davies (1880-1949), un o sylfaenwyr Cymdeithas y Cymod, flynyddoedd yn gweithio ymhlith dioddefwyr y dirwasgiad ym Mynwy a Morgannwg gan symud yn 1932 i Faes-yr-Haf, yn y Rhondda, sefydliad a agorwyd gan y Crynwyr.



Mae'r Crynwyr wedi cael dylanwad arwyddocal ar wahanol agweddau ar gymdeithas drwy hanes, fel ym meysydd diddymu caethwasiaeth,

sicrhau cyfle cyfartal i ferched, gweithio at heddwch a chymod, a diwygio sefydliadau amrywiol yn cynnwys ysgolion, ysbytai a charchardai. Mae gweithredoedd y Crynwyr hefyd wedi cyffwrdd â llawer iawn ohonom yn ddiarwybod efallai, yn enwedig os ydym wedi bwyta bar o siocled neu ymweld ag un o siopau Oxfam!

***ADNABYDDIR*** y Crynwyr yng Nghymru yn swyddogol fel Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.  Mae'r wefan **crynwyr.cymru** yn llawn gwybodaeth ddiddorol a defnyddiol amdanynt. Maent yn dal yn weithgar hyd heddiw gan barhau i ymateb i un o siarsiau George Fox, eu sylfaenydd: *Cerdda'n llawen drwy'r byd gan ymateb i'r hyn sydd o Dduw ym mhawb.*

## EIN PAPUR MISOL AR EI NEWYDD WEDD!



**Ym mis Medi, fe fydd Papur Priordy yn newid ei enw i 'Papur Elim, Heol Awst a'r Priordy'.**

**Edrychwn ymlaen at gyfuno bywyd a newyddion tair eglwys y dref sy'n perthyn i'n gofalaeth yn yr un papur. Diolch i Alun Charles am gytuno i barhau i olygu'r papur.**

**Fe fydd logo newydd ar glawr y papur o Fedi ymlaen – edrychwch allan amdano!**

**Diolch hefyd i Bwyllgor Dydd Gweddi'r Byd am y nawdd ariannol hael tuag at y prosiect newydd hwn.**

**CYTÛN – EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMRU**
**Eisteddfod Genedlaethol Cymru Rhondda Cynon Taf 2024**

**Er gwybodaeth**

**'Yn wahanol i'r arfer, ni fydd gennym stondin enfawr ar faes yr Eisteddfod ei hun, gan fod y maes dipyn yn llai eleni, a dim ond gofod bychan oedd yn cael ei ganiatáu. O'r herwydd, byddwn yn defnyddio eglwys St Catherine's yn y dre fel lleoliad ychwanegol er mwyn cynnig lluniaeth, oedfaon a digwyddiadau, ynghyd â nifer o arddangosfeydd a stondinau.'**

***(Gwefan Cytûn – 8 Mehefin 2024)***

# ADDOLI AR Y CYD
# MIS AWST 2024

**Dydd Sul, 6 Awst – 10 y bore**
***Heol Awst***
**ELONWY PHILLIPS**

**Dydd Sul, 13 Awst – 10.30 y bore**
**Penuel**
**Y trefniadau i'w cyhoeddi**

**Dydd Sul, 20 Awst – 10-30 y bore**
***Y Tabernacl***
***Oedfa Gymun***
**Y PARCHEDIG DDOETHUR MARY THORLEY**

**Dydd Sul, 25 Awst – 10 y bore**
***Y Priordy***
**Y PARCHEDIG  DDOETHUR DESMOND DAVIES**

***Rhyddheir hefyd Oedfa Ddigidol ar y Suliau hyn – diolch i garedigrwydd ein Gweinidog***

**Casglwyd £220 at Gymorth Cristnogol drwy'r cynllun amlenni eleni.**

**Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon**



**Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth**
**Dydd Sul 29 Medi 2024**
**12 erbyn 12.30**
***yn y Llwyn Iorwg***
***Pris - £25***

## EISTEDDFOD YR URDD MALDWYN 2024

**Diolch i bawb a gymerodd ran a llongyfarchiadau arbennig i ieuenctid y Priordy a gyrhaeddodd y brig naill ai'n unigol neu fel aelodau o ddeuawdau, corau, partïon ac ati. Ardderchog!**

### Ysgol y Dderwen

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llefaru | Bl 2 ac Iau | 1 | Greta Fflur |
| | Bl 5 a 6 | 1 | Gwilym Snelson |
| | | | |
| Unawd Cerdd Dant | Bl 5 a6 | 2 | Nansi Howells |
| Unawd Offer Taro | Bl 6 ac Iau | 3 | Luned Ifan |
| Dawns Werin | Bl 6 ac Iau | 3 | Lliwen Schiavone-Ifan<br>Gwern Schiavone-Ifan<br>Luned Ifan<br>Nansi Howells<br>yn aelodau o'r grŵp |
| Creu Cymeriad Cartŵn | Bl 6 ac Iau | 1 | Gwydion Williams |
| Ysgrifennu Sgript | Bl 6 ac Iau | 1 | Luned Ifan |

### Ysgol Llangynnwr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Creadigol 2D | Bl 6 ac Iau Grŵp | 2 | Greta Wyn, Gwenllian Davies ac Aneirin Griffiths yn aelodau o'r grŵp |

### Ysgol Nantgaredig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ffotograffiaeth: Llun Lliw | Bl 2 ac Iau | 1 | Deio Tomos |

### Adran Penrhyd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cân Actol | Bl 6 ac Oau (YC/Adran) Ysgolion hyd at 100 o blant rhwng 4-11 oed | 3 | Aneirin Griffiths yn aelod o'r grŵp<br>Tomos Morgans yn cyfeilio ar y drymiau |

## Ysgol Bro Myrddin

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno Alaw Werin Unigol | Bl 7,8 a 9 | 2 | Miriam Williams |
| Deuawd | Bl 7,8,9 | 1 | Miriam Williams a Beca Elfyn |
| Deuawd Cerdd Dant | Bl 7,8 a 9 | 3 | Miriam Williams a Beca Elfyn |
| 'Deuawd | Bl 10 a dan 19 oed | 3 | Erin Roderick yn rhan o'r ddeuawd |
| Unawd Offer Taro | Bl 10 a dan 19oed | 1 | Tomos Morgans |
| Grŵp Cerdd Dant | Bl 10 a dan 19 | 1 | Siwan Jones, Gwenllian Jones, Erin Roderick yn aelodau o'r grŵp |
| Côr Cerdd Dant | Bl 13 ac Iau | 2 | Siwan Jones, Gwenllian Jones, Erin Roderick, Marged Jones yn aelodau o'r côr |
| Côr S A | Bl 13 ac Iau a dan 19 | 2 | Siwan Jones, Gwenllian Jones, Erin Roderick yn aelodau o'r côr |

## Ysgol Maes y Gwendraeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| Parti Bechgyn | Bl 7,8,9 | 1 | Osian Hayes yn aelod o'r parti |
| Dawns Werin | Bl 7,8,9 | 2 | Osian Hayes yn aelod o'r grŵp |
| Côr S A | Bl 7,8,9 | 2 | Osian Hayes yn aelod o'r côr |

## Aelwyd Hafodwenog

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dawns Werin | Bl 9 a dan 25 (Aelwyd/Uwch Adran) | 2 | Jac Tomos yn aelod o'r grŵp |
| Côr S A T B | 14-25 oed (Aelwyd) | 3 | Jac Tomos a Tomos Morgans yn aelodau o'r côr |

## Aelwyd y Waun Ddyfal

| | | | |
|---|---|---|---|
| Côr T T B | 14-25 oed (Aelwyd) | 1 | Steffan Jones, Gareth Jones, Elis Roderick yn aelodau o'r côr |

## DYLETSWYDDAU

### ROTA YMWELWYR

**Gorffennaf / Awst**

Emlyn Schiavone, Eurwen Jones ac Ann Thomas,
Carys Morgans a Miriam Wyrwoll

**Medi / Hydref – Ein Gweinidog**

### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Gorffennaf | | Medi | |
|---|---|---|---|
| **Gofalwr** | **Gwresogwr** | **Gofalwr** | **Gwresogwr** |
| Alison Parsons | | Elinor W Reynolds | Adrian Evans |

### BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf** | **7** | Meinir Jones | **Medi** | **1** | |
| | **14** | | | **8** | Eurwen Jones |
| | **21** | Luned Thomas | | **15** | |
| | **28** | | | **22** | Jayne Jones |
| | | | | **29** | |

### PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gorffennaf** | **7** | **Bore** | Alwen Owen a Fiona Elias |
| **Medi** | **1** | **Bore** | Eleri Thomas a Delyth Davies |

### DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gorffennaf** | **7** | Heledd Mai Jones | **Medi** | **1** | Lleucu Edwards |
| | **14** | Sul y Cyfundeb | | **8** | Y Plant |
| | **21** | Peter H Griffiths | | **15** | Heledd Tomos |
| | **28** | June Thomas | | **22** | Alwen Owen |
| | | | | **29** | Catrin Mair Jones |

### CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gorffennaf** | Tim Hayes | **Medi** | Dennis Jones |

## Y DDIWEDDAR NANO EVANS



Bu farw Nano yn dawel ar 12 Medi 2024 yng Nghartref Awel Tywi yn 94 oed.

Cofiwn amdani fel gwraig serchus ac annwyl.

Roedd Nano yn wraig amryddawn iawn, yn arbennig felly ym maes gwyddor tŷ. Bu'n darlithio yng Ngholeg Pibwrlwyd.  Roedd ganddi ddawn arbennig i addurno cacennau ar gyfer dathliadau o bob math.

Fe gofir amdani'n arbennig am ei charedigrwydd mawr, a'r croeso arbennig a roddai hi a'i diweddar briod, Gwylfa, i bawb a fyddai'n galw ar yr aelwyd yn Llangynnwr.

Diolchwn am ei ffyddlondeb i gymdeithas yr eglwys yn Y Priordy a'i pharodrwydd bob amser i gynorthwyo gyda gweini a pharatoi bwyd ar achlysuron arbennig. Roedd yn bresenoldeb ffyddlon a thawel ar y Sul.

Daeth cynulleidfa barchus iawn ynghyd i Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth prynhawn Iau 23 Medi ar gyfer oedfa i ddiolch am ei bywyd a'i gwaith. Arweiniwyd yr oedfa gan ei Gweinidog a thalwyd teryngedau iddi gan aelodau o'r teulu.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Maria, Andrew, Aron a'u teuluoedd.

Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth

**Ein Gweinidog**

# RHWYDWAITH

***EIN*** **cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn am Gloria Evans y mis hwn. Cofion cynnes atoch i gyd.**

Mae’n siŵr bod amryw ohonom wedi gwylio Ken Owens: Y Sheriff ar S4C, sef stori bersonol liwgar bachwr Cymru a'r Scarlets, dros y 18 mis diwethaf. Gwelwyd Tim Hayes ar ein sgriniau yn ystod ymweliad Ken â’i hen ysgol, sef Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Dymunwn yn dda hefyd i Ken gan obeithio y daw dros ei anhwylder yn fuan iawn.



Mae’r cyflwynydd Mari Grug sy’n wyneb cyfarwydd ar S4C ac yn llais cyson ar Radio Cymru wedi lansio podlediad newydd sy’n trafod canser – 1 mewn 2, y podleiad cyntaf o’i fath yn y Gymraeg. Yn cymryd rhan yn y podlediad mae’r Dr Llinos Roberts. Bwriad y podlediad yw rhannu profiadau o fyw gyda chanser ac mae’n annog pobl i ‘beidio ag ofni canser.’ Diolch i Mari am y podlediad a thestun llawenydd i ni i gyd yw’r newyddion da a glywsom yn ddiweddar am lwyddiant ei thriniaeth.

Bu Iwan Williams - er cof am ei fam-gu, Irene Williams, a fu’n aelod yn y Priordy - yn taclo Her Tri Chopa Cymru: Pen y Fan,Cadair Idris a’r Wyddfa i godi arian dros Gymorth Cristnogol. Cofiwn yn annwyl am Irene Williams a roddodd oes o wasanaeth i Gymorth Cristnogol



Roedd Carys Edwards yn un a fu’n sgwrsio gyda Ffion Davis ar Radio Cymru am y stôr o ddramâu comisiwn sydd gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) sydd wedi’u cyfieithu i’r Gymraeg o nifer o ieithoedd ar draws y byd, yn arbennig y rhai sydd newydd eu cyhoeddi. Mae trysorfa o ddeunyddiau yma sydd ar gael i bawb.



Llongyfarchiadau i Martin a Lowri Waterworth ar enedigaeth eu hwyres newydd. Ganed Alys Mai ar 28 Ebrill 2024 yn ferch i Lisa a Craig ac yn chwaer fach i Lilwen. Pob bendith arnynt

Bu Elinor Wyn Reynolds yn trin a thrafod papurau’r Sul ar Bore Sul ar Radio Cymru gydag Iwan Griffiths yn cyflwyno.

Llongyfarchiadau i Mared Owen ar gymhwyso fel meddyg, BM BCh, yng Ngholeg yr Iesu Rhydychen ac i Catrin Owen ar ennill gradd BMus ym Mhrifysgol Manceinion ac i Lucy Jones ar ennill gradd BA mewn Hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth.  Pob llwyddiant i'r dyfodol i'r tair ohonoch.

***I GLOI***, mae Gwynfor Davies, un o'n hymddiriedolwyr, wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar - ffigwr crwn!  Ein dymuniadau gorau iddo oddi wrth bob un ohonom yn y Priordy



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Medi i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Estynnwn ein cydymdeimlad â Menna Elfyn a Wynford James ar golli chwaer Wynford, sef Ellen Rhiannon Scott, Llangadog (gynt o Fferm Tŷ Llwyd Felin-gwm), ar 21 Mai 2024.  Cofiwn am yr holl gydnabod yn eu profedigaeth a'u hiraeth.**

**Mynegwn ein cydymdeimlad cywir â Harri Evans ar golli cyfnither iddo, sef Muriel Vaughan, Talacharn, ar 5 Mehefin 2024. Cofiwn am y teulu cyfan yn eu galar.**

**Estynnwn ein cydymdeimlad â Myfanwy Jones, Bryan a Sharon ar golli brawd Myfanwy, sef Edward Trefor Jones, Llansilin, ger Croesoswallt ar 7 Mehefin 2024, ynghyd â'r cysylltiadau teuluol eraill i gyd. Cofiwn yn annwyl iawn amdanoch yn eich hiraeth a'ch galar.**

**Mae'n meddyliau gyda Delyth a Nick Davies a'r plant Jac a Mali ar golli brawd Delyth yn ddisymwth, sef Emyr Thomas, Crymych ar 20 Mehefin 2024.  Cofiwn am ei briod, Christine, ei fam a'r holl gysylltiadau yn eu profedigaeth a'u galar.**

**ER GWYBODAETH**

**PAPUR MISOL - NEWID TREFN DOSBARTHU**

**Mae'r hen drefn (cyn Covid) o ddosbarthu'r papur ar ddiwedd yr oedfa ar fore Sul cynta'r mis yn cael ei hadfer. Serch hynny, fe fydd cleifion yr eglwys yn parhau i dderbyn copi dwy'r post. Bydd copïau yn dal i gael eu rhoi yn Garej Tanerdy a Siop y Pentan. Caiff hefyd ei anfon drwy ebost a bydd yn ymddangos ar wefan yr eglwys.**

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf | 7 | *Bore* | Ein Gweinidog | C |
| | 14 | *P'nawn* | Sul y Cyfundeb. Manylion y tu mewn | |
| | 21 | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | 28 | *Bore* | Ein Gweinidog | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Medi | 1 | *Bore* | Ein Gweinidog | C |
| | 8 | *Bore* | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog | |
| | 15 | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | 22 | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | 29 | *Bore*<br>*P'nawn* | Oedfa ar gyfer yr Ofalaeth gyda'n Gweinidog<br>Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth. Gwybodaeth y tu mewn | |

**CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC**

✓ Ysgol Sul   PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul   CP – Cwrdd Plant
OD – Oedfa Deulu   SC – Sul y Cyfundeb

| Gorffennaf | | | | Medi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | 14 | 21 | 28 | 1 | 8 | 15 | 22 | 29 |
| ✓ | SC | - | - | - | OD | ✓ | ✓ | ✓ |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**

**BORE COFFI McMILLAN**
***Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd***

**Dydd Gwener 27 Medi 2024**
**Clwb y Cwins, Abergwili**
**9.30 tan 12.00**
**Mynediad am ddim**

**Stondinau Cynnyrch Cartref a Raffl**

**Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig eich help ac unrhyw gyfraniad at y raffl neu'r stondin cacennau cysylltwch ag Alison Parsons, os gwelwch yn dda**